Rhif: WG41028

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Newidiadau Polisi Drafft – Darparu Toiledau Changing Places a Chyfleusterau Newid Cewynnau Babanod

Dyddiad cyhoeddi: 04 Chwefror 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 26 Mai 2021

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL (h) Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion i wneud y canlynol:

- Cynyddu nifer y Toiledau Changing Places a'r Cyfleusterau Newid Cewynnau/Clytiau Babanod ("defnyddir *cewynnau* yng ngweddill y testun hwn") sydd ar gael mewn mathau penodol o adeiladau drwy ddiwygio canllawiau Dogfen Gymeradwy M ar gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu.

- Galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu mwy o Doiledau Changing Places yn ychwanegol at yr hyn sy'n ofynnol i ddangos cydymffurfiaeth â'r rheoliadau cynllunio, drwy'r broses gynllunio.

**Sut i ymateb**

Gallwch e-bostio eich ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn i'r canlynol: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Os byddwch yn ymateb yn ysgrifenedig, nodwch yn glir i ba ymgynghoriad a chwestiynau rydych yn ymateb:

Toiledau Changing Places/Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod.

Dylid anfon ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad canlynol:

Toiledau Changing Places/Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod,
Rheoliadau Cynllunio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Pan fyddwch yn ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, ac yn cynnwys:

- eich enw,
- eich swydd (os yw'n berthnasol),
- enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol),
- cyfeiriad (gan gynnwys cod post),
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn cyswllt

| | |
|---|---|
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd ar gais.** |
| **Manylion cyswllt** | Ar gyfer unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â thîm Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth Cymru drwy e-bostio: enquiries.brconstruction@llyw.cymru<br><br>I gael rhagor o wybodaeth:<br>Rheoliadau Adeiladu<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays,<br>Caerdydd,<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 0300 062 8144 |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys

Cyflwyniad: 1
Toiledau Changing Places: Cyffredinol 6
Toiledau Changing Places: mathau o adeiladau a meintiau 7
Toiledau Changing Places: maint a chyfarpar 9
Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod: Cyffredinol 12
Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod: mathau o adeiladau a meintiau 12
Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod: maint a chyfarpar 14
Y Camau Nesaf: 19

# Cyflwyniad

**Toiledau Changing Places (TCPau):**

1. Mae polisi Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo cyfranogiad cymunedol a dinasyddiaeth weithgar, ond mae'r ffaith nad oes toiled cwbl hygyrch, megis TCP, ar gael yn achosi problemau i rai pobl anabl.

2. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i helpu pobl anabl i gyflawni eu potensial a byw'r bywydau y maent am eu byw. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'n rhaid inni weithio tuag at ddileu rhwystrau sy'n atal hyn rhag digwydd, sy'n cynnwys y rhwystrau a'r anawsterau sy'n deillio o agweddau sefydliadau a phobl yn ogystal â rhwystrau ffisegol mewn adeiladau, trefi ac ardaloedd o gefn gwlad.

3. Mae ein fframwaith newydd, Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol, a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2019, yn canolbwyntio ar yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i symud yr agenda hon yn ei blaen. Ategir y fframwaith newydd gan gynllun gweithredu sy'n nodi amrywiaeth eang o gamau i fynd i'r afael â rhai o'r prif rwystrau a nodwyd gan bobl anabl, sy'n cynnwys trafnidiaeth, cyflogaeth, tai a mynediad i adeiladau a lleoedd.

4. Mae cam gweithredu 14 yn ein rhwymo i ystyried opsiynau i gynyddu nifer y TCPau sydd ar gael, am fod TCP mewn adeilad neu leoliad yn galluogi pobl ag anghenion gofal cymhleth i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyffredin. Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi cynigion i gynyddu nifer y toiledau Changing Places sydd ar gael yn unol â'r cam gweithredu hwnnw.

**Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod (CNCBau):**

5. Caiff tua 30,000 o fabanod eu geni bob blwyddyn yng Nghymru. Fodd bynnag, er bod llawer o leoliadau cyhoeddus bellach yn darparu CNCBau, gall safon y cyfleusterau hyn yn aml fod yn annigonol. Mae ymgyrchoedd cyhoeddus yn nodi mai dim ond mewn toiledau i fenywod neu doiledau hygyrch y mae CNCBau ar gael yn aml a bod tadau yn wynebu anawsterau neu'n teimlo'n lletchwith wrth geisio defnyddio CNCBau.

6. Mae darparu CNCBau yn ystyriaeth iechyd a diogelwch. Mae'n rhesymol tybio y bydd angen i rieni newid cewyn eu plentyn rywbryd ac, os nad oes lle diogel i wneud hynny, y gallent gael eu gorfodi i ddefnyddio pa le bynnag sydd ar gael, neu gael eu gorfodi i osgoi lleoliadau penodol, am nad oes cyfleusterau digonol ar gael.

7. Mae dogfen y cynllun cydraddoldeb strategol yn nodi ein nodau a'n hamcanion ym maes cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf, ynghyd â'r prif gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hynny. Bydd sicrhau mynediad cyfartal i CNCB yn helpu i greu Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd: (https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chamau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf)

8. Mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd wedi cael deiseb mewn perthynas â chyfleusterau glanweithiol mewn adeiladau cyhoeddus: P-05-871 – Trefnu bod cyfleusterau newid cewynnau ar gael mewn toiledau i ddynion a thoiledau i fenywod. Mae ymgyrchoedd eraill hefyd wedi'u cynnal yn y DU i sicrhau bod mwy o CNCBau ar gael mewn toiledau i ddynion. Mae'r ymgyrchoedd hyn hefyd wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau.

9. Mae ymgyrch Cymdeithas Toiledau Prydain, 'Where Can I Go', yn nodi gweledigaeth pum pwynt ar gyfer toiledau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am CNCBau ym mhob toiled yn ogystal â chyfleusterau eraill er mwyn sicrhau eu bod yn ystyriol o deuluoedd. Mae arferion gorau'r diwydiant yn BS 8300-2:2018 a BS 6465-2:2017 hefyd yn nodi y dylai CNCB sy'n hygyrch i bob defnyddiwr gael ei ddarparu ym mhob adeilad sydd ar agor i'r cyhoedd lle y bydd plant fel arfer yn bresennol.

# Cefndir

**Beth yw Toiled Changing Places (TCP)?**

10. Mae TCP yn darparu cyfleuster glanweithiol i bobl ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, yn ogystal â phobl â namau corfforol y mae angen cyfarpar a lle ychwanegol arnynt yn aml er mwyn iddynt allu defnyddio'r toiledau yn ddiogel ac yn gysurus. Mae TCP yn diwallu anghenion pobl nad yw'r cyfleuster hygyrch safonol (neu "doiled anabl") yn ddigonol nac yn briodol iddynt. Mae TCPau yn rhoi cyfle i bobl anabl a'u teuluoedd ymweld â mannau cyhoeddus na fyddent yn gallu mynd iddynt fel arall ac, felly, maent yn gwneud gwahaniaeth enfawr i ansawdd bywyd.

11. Mae Consortiwm Changing Places yn galw am i fwy o TCPau gael eu gosod mewn gwahanol leoliadau ledled y wlad, megis: canolfannau siopa, ysbytai, canolfannau trafnidiaeth (gorsafoedd trên, gwasanaethau traffordd), cyfadeiliau hamdden ac arenâu. Mae'n nodi bod dros 250,000 o bobl yn byw yn y DU na allant ddefnyddio toiledau hygyrch safonol a bod angen iddynt allu cael mynediad i TCP er mwyn defnyddio toiled yn ddiogel ac yn gysurus. Er bod nifer y TCPau yn cynyddu, awgrymwyd nad oes digon o doiledau o'r fath ledled y wlad o hyd. Yn ôl *Muscular Dystrophy UK*, dim ond 53 o TCPau cofrestredig a geir ledled Cymru.

**Beth yw Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod (CNCBau):?**

12. Gellir darparu CNCBau ar sawl ffurf wahanol. Gallant fod yn ystafelloedd penodol ar wahân a gynlluniwyd at y diben neu gallant fod yn fan a leolir o fewn pob un o'r toiledau un rhyw a hygyrch.

13. Yn gyffredinol, mae angen lleoli CNCB mewn ardal glir, er mwyn i rieni allu symud o amgylch yr uned, a gosod eitemau megis bagiau, bygis a deunyddiau newid o fewn cyrraedd. Mae angen lleoli'r unedau ar uchder sy'n hygyrch i gynifer o bobl â phosibl gyda chyfleusterau ymolchi gerllaw.

### Strategaethau Toiledau Lleol yng Nghymru

14. Cyflwynodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ofyniad i bob Awdurdod Lleol (ALl) yng Nghymru lunio Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer ei ardal mewn ymgynghoriad â'i drigolion a phartneriaid cyflawni eraill. Y bwriad yw mai man cychwyn fydd y strategaethau hyn ac y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy ddatganiadau interim ac y cânt eu hadolygu yn ôl yr amserlen a nodir yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

15. Wrth ddatblygu eu Strategaethau Toiledau Lleol, bydd yn ofynnol i ALlau asesu'r angen am doiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd yn eu hardal. Bydd yn rhaid i'r asesiad o angen ystyried darparu cyfleusterau newid i fabanod a lleoedd newid i bobl anabl. Wedyn, bydd yn rhaid i'r strategaethau nodi sut mae ALlau yn bwriadu diwallu'r angen hwnnw.

16. Y nod yw sicrhau y bydd ALlau yn ystyried yr amrywiaeth eang o gyfleusterau toiled sydd eisoes ar gael yn y sector cyhoeddus (e.e. llyfrgelloedd cyhoeddus, neuaddau cymunedol, canolfannau chwaraeon, theatrau ac amgueddfeydd ac ati) ac adeiladau yn y sector preifat wrth ddatblygu eu strategaethau. Y bwriad yw sicrhau y gwneir gwell defnydd o gyfleusterau toiled sydd eisoes yn bodoli y gellid trefnu eu bod ar gael i'r cyhoedd ehangach y tu hwnt i ffocws ar doiledau cyhoeddus traddodiadol.

### Rheoliadau Adeiladu

17. Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn pennu gofynion swyddogaethol ar gyfer mathau penodol o waith adeiladu – yn bennaf er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch, llesiant a chyfleustra pobl mewn adeiladau ac o'i hamgylch. Fel arfer, mae'r Rheoliadau yn gymwys i'r canlynol:
    - Codi neu ymestyn adeilad
    - Newid adeilad neu newid y defnydd a wneir ohono yn sylweddol

18. Dim ond pan fydd gwaith adeiladu yn cael ei wneud y gellir cymhwyso Rheoliadau Cynllunio. Nid yw'r Rheoliadau yn gymwys yn ôl-weithredol ar gyfer adeiladau sy'n bodoli eisoes, dylai'r rhain gydymffurfio â'r Rheoliadau a oedd mewn grym pan gawsant eu hadeiladu, eu newid neu eu hymestyn. Nid yw Rheoliadau Adeiladu yn gosod gofynion rheoli parhaus.

19. Mae'r Rheoliadau yn pennu gofynion swyddogaethol sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o faterion sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch, mynediad a chynaliadwyedd. Ategir y Rheoliadau gan ganllawiau mewn "Dogfennau Cymeradwy" sy'n rhoi canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y Rheoliadau.

20. Mae Rhan M (Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt) o'r Rheoliadau Adeiladu yn pennu safonau gofynnol o ran mynediad ar gyfer pob adeilad newydd a newidiadau ac estyniadau i adeiladau penodol sy'n bodoli eisoes. Mae Rhan M1 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth resymol gael ei gwneud er mwyn i bobl allu cael mynediad i adeilad a'i gyfleusterau a'u defnyddio. Ategir y gofynion hyn gan ganllawiau yn Nogfen Gymeradwy M sy'n nodi un ffordd y dylai gwaith adeiladu wneud darpariaeth resymol i fodloni Rhan M1.

21. Mae Cyrff Rheoli Adeiladu yn darparu gwiriad trydydd parti ynghylch a yw gwaith adeiladu yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac mae'r gwiriad hwn yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol neu Arolygydd Cymeradwy preifat.

Gofynion perthnasol presennol yn Nogfen Gymeradwy M:

22. Mae Dogfen Gymeradwy M: mynediad i adeiladau a defnydd ohonynt yn rhoi canllawiau ynglŷn â'r safonau gofynnol ar gyfer toiledau hygyrch a CNCBau mewn adeiladau cyhoeddus. Mae hynny'n cynnwys safonau ar gyfer toiledau un rhyw sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn mewn adeiladau bach a darpariaeth ychwanegol mewn adeiladau mwy o faint[1].

**Polisi Cynllunio Cymru (PCC)**

23. Mae PCC yn nodi bod mynediad a chynwysoldeb yn un o'r agweddau allweddol ar waith dylunio da. Mae'n nodi bod dylunio da yn golygu dylunio cynhwysol ac y dylai cynigion datblygu sicrhau bod pobl yn rhan annatod o'r broses ddylunio, cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth, cynnig dewis lle nad yw un ateb dylunio yn addas i bob defnyddiwr, darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran defnydd a darparu adeiladau ac amgylcheddau sy'n gyfleus ac yn bleserus i bawb eu defnyddio. Aiff ymlaen i nodi bod yn rhaid i gynigion datblygu fynd i'r afael â materion cynwysoldeb a hygyrchedd i bawb. Mae hyn yn cynnwys gwneud darpariaeth er mwyn diwallu anghenion pobl â nam ar eu synhwyrau, cof, dysgu a symudedd, pobl hŷn a phobl â phlant bach.

24. Ategir PCC gan Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio, sy'n nodi bod y rhai sy'n ceisio caniatâd i godi adeiladau masnachol cyhoeddus a newydd yn cael eu hannog i gynnwys cyfleusterau toiled 'Changing Places' hygyrch yn eu cynlluniau, yn ychwanegol at doiledau hygyrch safonol.

25. Bu'n rhaid cyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru ar gyfer llawer o geisiadau cynllunio ers 2009 ac o dan y gofynion deddfwriaethol ar gyfer Datganiadau Dylunio a Mynediad yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi canllawiau a ysgrifennwyd ar y cyd â Chomisiwn Dylunio Cymru. Canllawiau arfer dda presennol.

26. Mae'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy M yn cyfeirio at Safon Brydeinig BS 8300 sy'n rhoi canllawiau arfer dda ar ddylunio amgylchedd adeiledig hygyrch a chynhwysol. Mae hyn yn cynnwys TCPau a CNCBau.

27. Diweddarwyd y safon hon ym mis Ionawr 2018 ac mae canllawiau ar TCPau bellach yn adran 18.6 o "*BS 8300-2:2018 Design of an accessible and inclusive built environment. Buildings. Code of practice".* Mae'r canllawiau yn cynnwys argymhellion ar y mathau o adeiladau lle y dylid ystyried darparu TCP. Mae'r rhestr hon yn cydnabod manteision darparu toiledau o'r fath mewn adeiladau sydd ar agor i'r cyhoedd ac sydd ag amgylchedd a reolir ac oriau agor cyson, ar y cyfan, pan ellir defnyddio'r cyfleuster. Mae'r rhestr yn cynnwys enghreifftiau o eiddo cyhoeddus a masnachol, adeiladau sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith trafnidiaeth ac adeiladau mwy o faint sy'n 'gyrchfannau'.

[1] Gweler paragraffau 5.1, 5.6, 5.12 a 5.14(d).

28. Mae BS 8300-2:2018 hefyd yn rhoi canllawiau ar CNCBau hygyrch ac mae BS 6465-2:2017 yn rhoi canllawiau pellach ar feintiau a mannau gweithgareddau ar gyfer CNCBau tra bod BS 6465-1:2006 yn argymell y dylid darparu CNCB mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd plant bach yn bresennol.

# Toiledau Changing Places: Cyffredinol

**Y dull arfaethedig o gynyddu nifer y TCPau sydd ar gael**

29. Mae'r ddogfen gymeradwy bresennol yn rhoi neges glir ynglŷn â'r angen i ddarparu cyfleusterau mewn adeiladau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan ddefnyddwyr yn awgrymu nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i sicrhau y caiff anghenion pob defnyddiwr eu diwallu. Yn bwysig ddigon, wrth ddatblygu cynnig ar gyfer darparu TCPau o dan y Rheoliadau Adeiladu, rydym wedi ystyried, ar sail arferion da presennol, ble y gellir yn rhesymol bennu gofyniad.

30. Mae ein cynigion yn cynnwys adeiladau mawr newydd a ddefnyddir yn gyffredin gan y cyhoedd ac ymestyn unrhyw adeilad o'r fath neu newid y defnydd a wneir ohono. Nid yw darparu cyfleusterau o'r fath mewn adeiladau bach yn aml yn gymesur â'u maint ac mae'n bosibl na fydd hynny'n rhesymol ymarferol. Byddai canllawiau statudol (Dogfen Gymeradwy M) yn cael eu diwygio er mwyn rhoi canllawiau clir ynglŷn â ble a phryd y dylid darparu TCPau.

31. Bydd y dull hwn o weithredu 'sy'n seiliedig ar Reoliadau Adeiladu' yn rhoi eglurder i ddatblygwyr a defnyddwyr o ran ble y dylid darparu TCPau, gyda chydymffurfiaeth yn cael ei monitro gan Gyrff Rheoli Adeiladu.

32. Mae'n rhaid i waith adeiladu mewn adeiladau rhestredig gydymffurfio â rheoliadau adeiladu a gweithdrefnau ar wahân caniatâd adeilad rhestredig. Byddai adeiladau rhestredig a gwmpesir gan y cynigion yn cael eu cyfarwyddo i wneud "darpariaeth resymol" i ddarparu TCP. Lle mae tu hwnt i "ddarpariaeth resymol", er enghraifft mewn lleoliad hanesyddol, gall cyrff rheoli adeiladu benderfynu nad yw eu darparu yn rhesymol.

33. Nid yw'r dull rheoleiddio adeiladu yn ymgorffori ystyried lleoliad wrth ddarparu TCPau yn hawdd (h.y. ystyried ble mae cyfleusterau yn cael eu darparu ar hyn o bryd a ble mae angen cyfleusterau newydd fwyaf). Felly, caiff y dull rheoleiddio adeiladu ar gyfer cynyddu nifer y toiledau Changing Places sydd ar gael ei ategu gan newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i fynnu bod cyfleusterau ychwanegol yn cael eu darparu, ar ben y lefelau gofynnol a gynigir o dan reoliadau adeiladu, drwy'r system gynllunio lle y ceir tystiolaeth o angen lleol yn y Strategaeth Toiledau Lleol. Bydd y Strategaeth Toiledau Lleol hefyd yn nodi dulliau eraill o gynyddu nifer y TCPau sydd ar gael.

**Cwestiwn 1**

A ydych yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y TCPau sydd ar gael?

**Cwestiwn 2**

A ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru wella'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy M er mwyn cynyddu nifer y TCPau sydd ar gael?

Os nad ydych, nodwch y rheswm pam.

**Cwestiwn 3**

A ydych yn cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol allu ei gwneud yn ofynnol cael lefelau ychwanegol o ddarpariaeth ar gyfer TCPau drwy'r system gynllunio?

# Toiledau Changing Places: mathau o adeiladau a meintiau

### Canllawiau gwell ar ddarparu Toiledau Changing Places (TCPau) yn Nogfen Gymeradwy M

34. Byddai canllawiau gwell ar ddarparu TCP yn gofyn am newidiadau i Ddogfen Gymeradwy M a byddent yn nodi'r mathau o adeiladau lle y byddent yn cael eu hargymell yn ogystal â'r ffactorau a fyddai'n sbarduno'r gofyniad e.e. maint a chapasiti.

35. Rydym wedi anelu'r sbardunau sy'n fesuradwy gan Gyrff Rheoli Adeiladu. Mae maint a chapasiti yn fesurau pendant er enghraifft, ac rydym yn cynnig y dylid defnyddio'r rhain fel y sbardunau sy'n penderfynu pryd mae angen TCP. Yn ein barn ni, mae'n briodol pennu sbardun cyffredinol o ran maint a/neu gapasiti (neu p'un bynnag sydd fwyaf), ar gyfer pob math o adeilad a restrir ym Mlwch A. Ystyrir y bydd sbardun cyffredinol o ran maint[2] yn cwmpasu'r gwahanol fathau o adeiladau/datblygiadau a ddylai gynnwys TCP, yn ein barn ni.

36. Gallai defnyddio sbardun maint yn unig hepgor rhai adeiladau a ddylai gynnwys TCP. Ar gyfer rhai adeiladau megis canolfannau siopa, rydym o'r farn bod sbardun maint yn briodol. Mewn eraill, megis sinema neu theatr, mae nifer y seddi yn

[2] Disgrifir maint adeiladau yn ôl arwynebedd mewnol gros adeilad. Mae'r hyd mewn metrau wedi'i luosi â'r lled mewn metrau yn rhoi'r arwynebedd. Mesurir arwynebeddau mewn metrau sgwâr ac maent wedi'u talfyrru fel m2. Mae llawer o fesurau yn ymwneud ag arwynebedd ac, yn ein barn ni, mae'r Arwynebedd Mewnol Gros (GIA) (h.y. ôl troed yr adeilad heb gynnwys lled y waliau allanol ond gan gynnwys ardaloedd lle y ceir waliau mewnol, colofnau a rhaniadau) yn fetrig gwell na'r Arwynebedd Mewnol Net (NIA) neu'r Arwynebedd Allanol Gros (GEA).

sbardun mwy priodol er mwyn sicrhau ein bod yn cwmpasu’r rhai y bydd nifer mawr o bobl yn ymweld â nhw am gyfnod penodol o amser.

37. Yn ein barn ni, mae'r rhestr o adeiladau/datblygiadau ym Mlwch A yn ofyniad cymesur ac ymarferol o ran TCPau.

**BLWCH A – Toiledau Changing Places (TCPau)**

Adeiladwaith Newydd – dylid darparu TCP pan godir adeilad manwerthu (siop), adeilad ymgynnull/hamdden, adeilad preswyl (sefydliadol) neu adeilad preswyl (arall) neu adeilad sy'n cyfuno unrhyw rai o'r defnyddiau hyn, sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- mae iddo arwynebedd o fwy na 5,000 m², neu
- mae ynddo le i fwy na 1,000 o bobl.

Noder: Mae gwestai wedi'u cynnwys os ydynt yn darparu cyfleusterau digwyddiadau cymdeithasol, chwaraeon neu hamdden ac mae ysgolion wedi'u cynnwys os ydynt yn darparu mynediad i'r cyhoedd i'w cyfleusterau.

Addasu (newid defnydd) neu ymestyn – pan nad oes TCP mewn adeilad eisoes
Dylid darparu TCP pan gaiff adeilad mewn unrhyw un o'r categorïau uchod ei greu drwy addasu adeilad arall neu pan gaiff adeilad ei ymestyn fel bod ei arwynebedd llawr gros yn cynyddu 25% neu fwy, ar yr amod:

a) Yn achos ysbyty, fod unrhyw estyniad cymwys hefyd yn cynnwys mannau cyhoeddus e.e. ardaloedd aros, ffreuturiau, safleoedd manwerthu ac ati.
b) Yn achos ysgol, y bwriedir i unrhyw estyniad cymwys hefyd ddarparu cyfleusterau cymunedol.
c) Yn achos gwesty, y bwriedir i unrhyw estyniad cymwys hefyd ddarparu cyfleusterau digwyddiadau cymdeithasol, chwaraeon neu hamdden sydd ar gael i bobl o'r tu allan.

**Cwestiwn 4**

Os ydych yn cefnogi darpariaeth yn Nogfen Gymeradwy M fel y nodwyd yng Nghwestiwn 2, a ydych yn cytuno â'r mathau o adeiladau a restrir ym Mlwch A ar gyfer TCP?

Os nad ydych, a ddylai'r rhestr fod yn ehangach neu'n gulach, yn eich barn chi?

Os ydych o'r farn y dylai fod yn ehangach, pa fathau eraill o adeiladau y dylai gofyniad fod yn gymwys iddynt?

Os ydych o'r farn y dylai fod yn gulach, pa adeiladau y byddech yn eu hepgor?

**Cwestiwn 5**

Mewn perthynas ag ysgolion, a ddylai unrhyw fath arall o ysgol ddarparu TCP, yn eich barn chi? Os felly, pa fath o ysgol a ddylai ddarparu cyfleuster o’r fath a pham?”

**Cwestiwn 6**

Os ydych yn cefnogi darpariaeth, a ydych yn cytuno â'r meini prawf o ran maint a chapasiti ym Mlwch A mewn perthynas â phob math o adeilad ar gyfer TCP?

Nodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyferbyn â phob math o adeilad a'i sbardun.

Os nad ydych yn cytuno, nodwch pa sbardun sy'n briodol ar gyfer pob math o adeilad, yn eich barn chi.

# Toiledau Changing Places: maint a chyfarpar

**Maint Toiledau Changing Places (TCPau)**

38. Dylai TCP ddarparu digon o le er mwyn i ddefnyddiwr allu cael ei gynorthwyo gan ofalwyr. Dylai fod digon o le ynddo i gadeiriau olwyn ac i bobl allu troi, symud a defnyddio'r toiled, y sinc, y teclyn codi a'r cynheiliaid a gwely newid plygu.

39. TCP o faint safonol, fel y'i nodir yn BS 8300-2:2018 yw ystafell ag arwynebedd llawr o $12m^2$ (3m o led, 4m o hyd a 2.4m o uchder o'r llawr hyd i'r nenfwd). Yn yr ystafell ceir toiled penrhyn, teclyn codi, basn y gellir addasu ei uchder, mainc newid maint oedolyn y gellir addasu ei huchder, silffoedd, canllawiau cydio a chawod ddewisol, i'w defnyddio gan bobl â namau cymhleth a lluosog y mae angen help hyd at ddau gynorthwyydd arnynt. Mae system godi â thrac sefydlog wedi'i gosod yn yr ystafell er mwyn i gynorthwywyr allu cysylltu slingiau'r defnyddiwr â'r teclyn codi a symud yr unigolyn i'r gwahanol eitemau yn y cyfleuster.


40. Mae ystafell 3m x 4m yn rhoi lle hirsgwar er mwyn i ddefnyddwyr a gofalwyr allu symud rhwng pob eitem o gyfarpar yn y toiled. Weithiau, darperir y rhain mewn mannau o faint tebyg ond mewn cyfluniad gwahanol i'r siâp hirsgwar safonol hwn. Yr hyn sy'n hanfodol yw bod digon o le yn y lle cywir a bod y cyfarpar cywir ar gael.

41. Mae'n bwysig bod defnyddiwr cadair olwyn yn gallu symud mewn cadair olwyn rhwng pob eitem a bod digon o le i hyd at ddau ofalwr allu trosglwyddo neu godi'r defnyddiwr o'r gadair olwyn ar y gwely plygu neu o'r gadair olwyn i'r toiled penrhyn neu o'r toiled i'r gwely plygu. Bydd y symudiadau hyn rhwng y sinc, y gwely a'r toiled yn amrywio yn dibynnu ar faint yr oedolyn neu'r plentyn neu faint y gadair olwyn. Mae taclau codi yn codi ac yn gostwng y defnyddiwr ac mae taclau codi yn ei gwneud yn haws i ofalwyr godi a symud defnyddwyr.

Ffigur 1 – Enghraifft o gynllun TCP o faint safonol:



Ffigur 2 – Cynllun a Chyfarpar Dangosol TCP:



### Cyfarpar mewn Toiledau Changing Places

42. Pan ddarperir TCP mewn adeiladau mawr newydd a ddefnyddir fel arfer gan y cyhoedd, mae angen darparu cyfarpar penodol. Mae'r cyfarpar hwn yn amrywio o eitemau bach megis teclyn dosbarthu tyweli papur a drych hyd llawn i eitemau mwy o faint megis system godi â thrac sy'n cwmpasu'r ystafell gyfan neu seston fflat sydd ynghlwm wrth y toiled sy'n darparu cynhalydd cefn ac arwyneb newid bag colostomi. Gellir gweld y fanyleb yn y ddogfen gymeradwy ddrafft yn Atodiad B.

| **Cwestiwn 7** |
|---|
| A ydych yn cytuno y dylai TCP gael ei gynllunio yn unol â'r ddogfen gymeradwy ddrafft a chynnwys y cyfarpar a restrir ynddi?<br><br>Os nad ydych, nodwch yr hyn y dylid ei ychwanegu at y rhestr neu ei ddileu ohoni, yn eich barn chi. |

### Toiled Changing Places mewn adeilad sy'n cael ei ymestyn neu y mae'r defnydd a wneir ohono yn cael ei newid

43. Pan ddarperir TCP mewn adeilad (a restrir ym Mlwch A) sy'n cael ei ymestyn neu y mae'r defnydd a wneir ohono yn cael ei newid, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall fod cymhlethdodau yn gysylltiedig â gosod TCP 12 $m^2$. Mae gennym ddiddordeb yn y materion a all godi o hyn.

| **Cwestiwn 8** |
|---|
| Pan ddarperir TCP mewn adeilad (a restrir ym Mlwch A) sy'n cael ei ymestyn neu y mae'r defnydd a wneir ohono yn cael ei newid, pa drefniadau ymarferol y gellir eu darparu ar gyfer TCP llai o faint o ran maint yr ystafell a chyfarpar?<br><br>Nodwch y rhesymau dros eich dewis. |

| **Cwestiwn 9** |
|---|
| Defnyddiwch y cwestiwn hwn i nodi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y cynigion i wneud darpariaeth ar gyfer TCP a maint y TCPau a'r cyfarpar ynddynt. |

# Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod: Cyffredinol

**Y dull arfaethedig o gynyddu nifer y Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod (CNCBau) sydd ar gael**

44. Fel gyda TCPau, mae'r ddogfen gymeradwy bresennol yn rhoi neges glir ynglŷn â'r angen i ddarparu CNCBau mewn adeiladau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan ddefnyddwyr yn awgrymu nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigon cryf i sicrhau y caiff anghenion pob defnyddiwr eu diwallu chwaith.

45. Fel gyda TCPau, mae ein cynigion yn cynnwys adeiladau mawr newydd a ddefnyddir yn aml gan y cyhoedd ac ymestyn unrhyw adeilad o'r fath neu newid y defnydd a wneir. Mewn ffordd debyg, rydym yn ystyried y byddai adeiladau rhestredig a gwmpesir gan y cynigion yn cael eu cyfarwyddo i wneud "darpariaeth resymol" i ddarparu CNCB.

| **Cwestiwn 10**<br><br>A ydych yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y CNCBau sydd ar gael?<br><br>Os ydych, a ydych yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau gwell yn Nogfen Gymeradwy M er mwyn cynyddu nifer y CNCBau sydd ar gael?<br><br>Os nad ydych, nodwch y rheswm pam. |
|---|

# Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod: mathau o adeiladau a meintiau

**Canllawiau gwell ar ddarparu Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod (CNCBau) yn Nogfen Gymeradwy M**

46. Byddai canllawiau gwell ar ddarparu CNCB yn gofyn am newidiadau i Ddogfen Gymeradwy M a byddent yn nodi'r mathau o adeiladau lle y byddent yn cael eu hargymell yn ogystal â'r ffactorau a fyddai'n sbarduno'r gofyniad e.e. maint a chapasiti.

47. Fel gyda'r ddarpariaeth ar gyfer TCPau, rydym hefyd wedi defnyddio sbardunau sy'n fesuradwy gan Gyrff Rheoli Adeiladu ac wedi darparu rhestr o adeiladau/datblygiadau ym Mlwch B. Mae'r trothwyon hyn yn wahanol i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer TCPau. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod o'r farn eu bod yn gymesur ac yn ymarferol.

**BLWCH B – Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod (CNCBau)**

Adeiladwaith Newydd – dylid darparu CNCB hygyrch pan adeiledir y canlynol:

- Siop neu ganolfan siopa â chyfanswm arwynebedd llawr siop o fwy na 1,000m2, neu
- Adeilad ymgynnull sydd â lle i fwy na 200 o bobl, neu
- Adeilad adloniant, sy'n cynnwys bwyty a/neu safle bwyd brys â seddi neu safle trwydded, sydd â lle i fwy na 200 o bobl.
- Ysbyty mewn ardaloedd lle mae'r cyhoedd yn aros neu fwyty,
- Gwesty sy'n darparu cyfleusterau sy'n hygyrch i'r cyhoedd (h.y. nid ydynt wedi'u cyfyngu i breswylwyr yn unig)
- Ysgolion sy'n cynnig cyfleuster cymunedol

Addasu (newid defnydd) neu Ymestyn – pan nad oes CNCB mewn adeilad eisoes, dylid darparu un pan gaiff adeilad mewn unrhyw un o'r categorïau uchod ei greu drwy newid y defnydd a wneir ohono yn sylweddol neu pan fydd adeilad yn cyrraedd y trothwyon neu pan gaiff ei ymestyn i'w cyrraedd.

**Cwestiwn 11**

Os ydych yn cefnogi darpariaeth, a ydych yn cytuno â'r mathau o adeiladau a restrir ym Mlwch A ar gyfer CNCB?

Os nad ydych, a ddylai'r rhestr fod yn ehangach neu'n gulach, yn eich barn chi?

Os ydych o'r farn y dylai fod yn ehangach, pa fathau eraill o adeiladau y dylai gofyniad fod yn gymwys iddynt, yn eich barn chi?

Os ydych o'r farn y dylai fod yn gulach, pa adeiladau y byddech yn eu hepgor?

**Cwestiwn 12**

Os ydych yn cefnogi darpariaeth, a ydych yn cytuno â'r meini prawf o ran maint a chapasiti a nodir ym Mlwch B mewn perthynas â phob math o adeilad ar gyfer CNCB?

Nodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyferbyn â phob math o adeilad a'i sbardun.

Os nad ydych yn cytuno, nodwch pa sbardun sy'n briodol ar gyfer pob math o adeilad, yn eich barn chi.

# Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod: maint a chyfarpar

**Maint Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod (CNCBau) a'r cyfarpar ynddynt**

48. Os caiff CNCB ei leoli o fewn ciwbicl toiled, bydd yn lleihau nifer y toiledau sydd ar gael mewn adeilad pan fydd yn cael ei ddefnyddio. Os mai'r toiled dan sylw yw'r unig doiled hygyrch, gall hyn achosi anghyfleustra ychwanegol.

49. Dylai CNCBau gael eu darparu naill ai fel cyfleuster un rhyw hygyrch ar wahân neu fel lle hygyrch penodol o fewn cyfleuster glanweithiol hygyrch i ddynion a chyfleuster glanweithiol hygyrch i fenywod (a elwir yn ystafelloedd ymolchi un rhyw) ac nid o fewn toiled defnydd hygyrch penodedig.

50. Dylai fod gan gyfleusterau arwyddion clir a dylai fod yn hawdd dod o hyd iddynt.

51. Dylid cynllunio CNCB yn unol â'r safonau gofod yn BS8300-2:2018 a BS 6465-1:2006, a dylent gynnwys y canlynol:

- lle i symud sy'n mesur o leiaf 1.5m wrth 1.5m, heb unrhyw rwystrau, gan gynnwys ardal agor drws, heblaw'r rhai a nodir isod,

- basn golchi dwylo rhwng 720mm a 740mm uwchlaw lefel y llawr. Ni ddylai basn golchi dwylo wedi'i osod ar wal fargodi mwy na 300mm i'r lle symud,

- arwyneb newid tua 750mm o uchder, gyda lle clir nad yw'n llai na 700mm o uchder oddi tano a lle gweithgarwch clir â'r dimensiynau gofynnol a ddangosir yn Ffigur 3 a Ffigur 4 o leiaf. Ni ddylai'r arwyneb newid ymestyn mwy na 300mm dros le symud. Y dimensiynau gofynnol ar gyfer bwrdd newid plygu yw 770mm x 600mm pan fo'r colynnau ar yr ymyl hir (ni ddylai fargodi mwy na 150mm pan fo'n unionsyth) a 550mm x 800mm pan fo'r colynnau ar yr ymyl fer (ni ddylai fargodi mwy na 150mm pan fo'n unionsyth).

Dylai CNCB gynnwys y cyfarpar a restrir ym Mlwch C isod o leiaf:

**Blwch C – Cyfleusterau Newid Cewynnau Babanod – manyleb ar gyfer adeiladau newydd, adeiladau sy'n cael eu hymestyn neu adeiladau y mae'r defnydd ohonynt yn cael ei newid:**

1. Uned newid cewynnau blygu. Y dimensiynau gofynnol ar gyfer bwrdd newid plygu yw 770mm x 600mm pan fo'r colynnau ar yr ymyl hir (ni ddylai fargodi mwy na 150mm pan fo'n unionsyth) a 550mm x 800mm pan fo'r colynnau ar yr ymyl fer (ni ddylai fargodi mwy na 150mm pan fo'n unionsyth).
2. Silff uwchben bin
3. Bin
4. Basn ymolchi o uchder safonol
5. Drych hyd llawn
6. Canllaw fertigol
7. Basn golchi dwylo lefel isel
8. Bin gwaredu deunyddiau mislif
9. Canllaw llorweddol
10. Toiled
11. Canllaw cwympo
12. Lle i droi cadair olwyn/cadair wthio sy'n mesur 1500mm

**Cwestiwn 13**

A ydych yn cytuno y dylai CNCB gael ei gynllunio yn unol â'r ddogfen gymeradwy ddrafft a chynnwys y cyfarpar a restrir ynddi?

Os nad ydych, nodwch yr hyn y dylid ei ychwanegu at y rhestr neu ei ddileu ohoni, yn eich barn chi?

# Asesu effeithiau

52. Ar y cam hwn, mae dadansoddiad lefel uchel wedi'i gynnal er mwyn ystyried effaith diwygio canllawiau ar TCPau a CNCBau.

**Opsiynau**

53. Mae un opsiwn polisi wedi'i ystyried ac mae'r effeithiau wedi'u costio drwy gymharu â senario 'gwneud dim' lle na roddir unrhyw bolisi ar waith.

54. **Llinell Sylfaen Gwneud Dim:** Y llinell sylfaen y mae'r opsiwn polisi amgen yn cael ei gymharu yn ei herbyn yw senario lle mae perchnogion adeiladau yn gosod TCPau neu CNCBau o'u gwirfodd neu drwy ddulliau eraill (e.e. gofynion arian grant).

55. **Opsiwn 1 - Mewnosod darpariaeth yn y Ddogfen Gymeradwy:** Byddai'r opsiwn yn cynnwys cyhoeddi canllawiau newydd yn y Ddogfen Gymeradwy i Ran M o'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn darparu TCP a/neu CNCB mewn adeiladau penodol. Golyga hyn y disgwylid darpariaeth pe bai'r canllawiau yn y Ddogfen

Gymeradwy yn cael eu defnyddio fel ffordd o sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

56. Opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n helpu i gyflawni'r amcan polisi i gynyddu nifer y cyfleusterau glanweithiol penodol sydd ar gael mewn adeilad a ddefnyddir gan y cyhoedd lle y bo'n briodol. Bydd hyn yn galluogi pobl anabl iawn a rhieni i ymweld â mannau cyhoeddus na fyddent, fel arall, yn gallu mynd iddynt.

**Costau TCP/CNCB**

57. Mae'r adran hon yn edrych ar effeithiau ariannol ac anariannol yr opsiynau hyn.

**Llinell Sylfaen Rhagamcanu/Gosodiadau yn y Dyfodol:**

58. Y llinell sylfaen y caiff yr opsiynau polisi amgen eu cymharu yn ei herbyn yw senario lle nad oes unrhyw ymyrraeth ac mae perchenogion adeiladau yn gosod TCPau/CNCBau am resymau eraill. Er enghraifft:

- **Darpariaeth wirfoddol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid:** Caiff TCPau/CNCBau eu gosod gan gwmnïau/perchnogion adeiladau os byddant o'r farn eu bod yn darparu rhan o ffordd o ddiwallu anghenion eu cwsmeriaid[3].

- **Strategaeth Toiledau:** Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar bob ALl yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Mae'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i strategaeth gynnwys asesiad o angen y gymuned am doiledau, gan gynnwys cyfleusterau newid i fabanod a chyfleusterau Changing Places i bobl anabl. Mae'n rhaid i'r strategaeth hefyd roi manylion am y ffordd y mae'r ALl yn bwriadu diwallu'r angen.

- **Arweinir gan grantiau:** Gall TCP/CNCB gael ei ddarparu o ganlyniad i arian grant a roddwyd yn uniongyrchol i ddarparu TCP[4]/CNCB neu gallai darparu cyfleuster o'r fath fod yn un o amodau cael cyllid ar gyfer prosiect mwy o faint.

59. Mae darparu toiledau o dan y senario llinell sylfaen wedi arwain at greu 53 o TCPau cofrestredig ledled Cymru. Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys toiledau sydd wedi'u darparu mewn adeiladau neu leoliadau na fyddent wedi'u cynnwys yn Opsiwn 1. Er y derbynnir y bydd y dulliau uchod yn parhau i gynyddu nifer y toiledau sydd ar gael, am fod nifer y TCPau a'u lleoliad yn amrywio, y dybiaeth syml a ddefnyddiwyd yw na fydd yr un TCP yn cael ei ddarparu heb ymyrraeth. Aseswyd yr effaith fesul toiled/cost adeiladu, sy'n cynrychioli cost realistig fesul busnes.

60. Nid oes unrhyw gronfeydd data ar gyfer CNCBau yng Nghymru/y DU, er bod 'apiau' yn y farchnad yn nodi llawer ledled Cymru. Mae darparu CNCBau yn fodd i gwmnïau werthu cynnyrch/gwasanaeth i rieni drwy eu plant ac, am fod hyn yn cael ei gydnabod yn y farchnad, ystyrir bod y ddarpariaeth yn uchel, ar y cyfan. Fodd bynnag, y broblem yw nodi CNCBau nad ydynt yn hygyrch i bob defnyddiwr (er enghraifft, CNCBau sydd wedi'u lleoli mewn toiledau i fenywod yn unig). Fodd

[3] https://www.tescoplc.com/news/2019/tesco-installs-more-changing-places-toilets-to-help-disabled-shoppers/
[4] https://www.swansea.gov.uk/article/47862/Caswell-Bay-welcomes-new-disability-changing-places

bynnag, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod hon yn broblem. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata ystadegol ar argaeledd CNCBau sydd ar gael i bawb. Ar y sail hon, nid yw'n bosibl nodi'r gost sy'n gysylltiedig â'i gwneud yn ofynnol bod cyfleusterau ychwanegol ond yn cael eu gosod yn yr adeiladau hynny nad ydynt yn darparu mynediad cyfartal i CNCBau. Felly, mae cost gyffredinol fesul uned/adeilad hefyd wedi'i defnyddio i asesu'r cynnig hwn.

**Costau gosod**

61. Mae costau gosod TCP yn amrywio yn dibynnu ar gostau adeiladu nodweddiadol gwahanol fathau o adeiladau. Cynhaliodd BRE brosiect[5] ymchwil er mwyn llywio'r gofynion a'r meini prawf gosod ar gyfer TCPau mewn adeiladau annomestig. Nodwyd pum math gwahanol o adeiladau ac fe'u defnyddiwyd fel y sail i'r costiadau sy'n cynnwys costau cyfalaf cychwynnol a chostau darparu cyfarpar. Mae data hefyd ar gael ar gyfer costau adnewyddu sylweddol a chyfundrefn cynnal a chadw flynyddol. Mae'r data hyn yn rhoi cost gychwynnol ar gyfer TCP sydd rhwng £47,000 a £64,000. Mae'r costau adeiladu wedi cael eu hystyried yn erbyn costau adeiladu nodweddiadol[6] gwahanol adeiladau fesul m2 o arwynebedd llawr mewnol gros ledled Prydain a'u haddasu er mwyn ystyried yr amrywiadau rhanbarthol ac maent yn dal i gael eu hystyried yn gywir ar gyfer adeiladau newydd. Mae costau adeiladau diweddar yr aed iddynt wrth ôl-osod nifer o TCPau mewn adeiladau a oedd yn bodoli eisoes yn awgrymu ffigur rhwng £40,000 a £76,000, gyda chyfartaledd o £57,800.

62. Disgwylir i'r gwaith o osod bwrdd newid babanod ar wal sy'n addas i'w ddefnyddio at ddibenion masnachol gostio rhwng £150 a £300 fesul cyfleuster gyda chost gosod o £100. Pe bai angen lle ychwanegol o fewn y toiled, disgwylir i'r gost adeiladu fesul metr sgwâr fod rhwng £1,250 a £2,500, yn dibynnu ar y math o adeilad a safon y gwaith gosod. Amcangyfrifir y bydd y gost fesul adeilad rhwng £2,500 a £5,500.

<u>Costau adnewyddu deunyddiau</u>

63. Ar ôl i gyfleuster newydd gael ei osod, bydd costau cynnal a chadw parhaus hefyd (e.e. adnewyddu cyfarpar, glanhau TCPau). Amcangyfrifodd gwaith ymchwil BRE y byddai'r costau gweithredol blynyddol, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw, gwasanaethu a glanhau, dros gyfnod o 10 mlynedd, tua £4,407.

64. Am fod modd lleoli CNCBau mewn toiledau sydd eisoes yn cael eu darparu, disgwylir i gostau adnewyddu deunyddiau a chostau rheoli fod yn llai. Er enghraifft, ystyrir bod costau glanhau wedi'u hymgorffori mewn costau glanhau presennol sy'n gysylltiedig â darparu'r toiled. Disgwylir i'r gwaith o adnewyddu’r cyfleusterau gostio o leiaf £400 dros yr un cyfnod.

<u>Costau ymgyfarwyddo</u>

65. Yn ogystal â'r costau gosod, bydd rhai costau amser i ddatblygwyr wrth iddynt ymgyfarwyddo â'r rheoliadau newydd. Mae'r costau hyn yn cynnwys yr amser a gymerir i ddarllen y rheoliadau a llunio cynllun er mwyn ymateb iddynt. Er bod ansicrwydd ynghylch faint yn union o amser y byddai'n ei gymryd, ystyrir bod braich ‘ddatblygu’ y diwydiannau yr effeithir arnynt gryn dipyn yn llai na nifer y staff

[5] https://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20160105073137mp_/http://www.gov.scot/Resource/0040/00402201.pdf
[6] https://costmodelling.com/building-costs

y nodwyd eu bod yn gweithio yn y diwydiannau hynny. E.e. byddai staff y nodwyd eu bod yn gweithio yn y sector manwerthu yn cynnwys yr holl weithwyr a gyflogir, tra byddai'r effaith yn gysylltiedig â'r bobl sy'n datblygu/adnewyddu adeiladau yn y sector. Mae defnyddio data cyflogau fesul awr ASHE ar gyfer 'Rheolwyr eiddo, tai ac ystadau' yn rhoi cyfradd o £22.35[7]. Amcangyfrifir y gost fesul busnes ar sail un gost o 5 awr ar gyfer 2 aelod o staff am gost o £223.50 fesul busnes ar gyfer CNCBau a TCPau.

**Effeithiau anariannol**

Colli arwynebedd llawr

66. Bydd cost cyfle yn gysylltiedig â defnyddio'r lle ar gyfer TCP (ac, o bosibl, CNCB) yn hytrach na defnyddiau eraill. Ar y sector manwerthu ac eiddo arall mewn ardaloedd ag arwynebedd llawr uchel ei werth y byddai'r canllawiau diwygiedig yn effeithio fwyaf. Lle mae'r defnydd o adeilad yn y sector Gwestai / Tafarndai / Hamdden, nid yw gwerth yr adeilad yn cael ei bennu drwy gyfeirio at arwynebedd llawr (mae gwerth adeilad yn gysylltiedig â throsiant y busnes sy'n adlewyrchu ffactorau eraill), bydd yr effaith yn dibynnu ar broffidioldeb y busnes, nid yr arwynebedd llawr a gollir. Yn groes i'r pwynt hwn, gallai darparu cyfleusterau gynyddu nifer yr ymwelwyr/gwariant a fyddai'n gwneud iawn am yr arwynebedd llawr a gollwyd.

Mynediad i gyfleusterau – dileu rhwystrau a'r effaith ar ansawdd bywyd

67. Mae manteision darparu'r cyfleusterau hyn yn rhai cymdeithasol ac mae a wnelont â dileu rhwystrau yn unol â model cymdeithasol anabledd a chydraddoldeb. Bydd cynyddu'r ddarpariaeth yn galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyffredin megis teithio, siopa, dyddiau allan gyda'r teulu neu fynd i ddigwyddiad chwaraeon. Mae'r manteision i ansawdd bywyd yn debygol o fod yn sylweddol.

68. Mantais ychwanegol nad yw wedi'i chyfleu ar ffurf ariannol yw'r un a allai ddeillio o wariant economaidd cynyddol. Byddai hyn yn cael ei sicrhau drwy gynyddu gwariant ymwelwyr ar fusnesau unigol y gellid ymweld â nhw bellach yn ogystal â thrwy wariant cysylltiedig ychwanegol. Am ei bod yn anodd cyfleu'r manteision hyn ar ffurf ariannol, nid yw hyn wedi'i wneud yn yr asesiad effaith hwn.

**Tystiolaeth gryno a'r opsiwn a ffefrir**

69. Yn seiliedig ar asesiad o'r dystiolaeth, yr opsiwn a ffefrir yw darparu ar gyfer TCP/CNCB mewn adeiladau penodol. Er bod cost gydnabyddedig, ystyrir ei bod yn gymesur â meintiau'r adeiladau a gynigir.

70. Byddem yn croesawu eich barn ar y data/tybiaethau a ddefnyddiwyd i ategu'r dadansoddiad hwn a/neu os oes gennych dystiolaeth i sicrhau gwaith dadansoddi gwell, yna hoffem glywed amdani.

[7] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/occupation4digitsoc2010ashetable14 Tabl 14.6a ASHE, cynyddir cyfraddau cyflogau 30% er mwyn adlewyrchu gorbenion.

**Cwestiwn 14**

A ydych yn cytuno â'r amcangyfrifon o'r costau?

Os nad ydych, esboniwch beth fyddai'n ystod costau briodol, yn eich barn chi, a darparwch dystiolaeth i ddangos pam.

**Cwestiwn 15**

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 16**

Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y cynigion arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

# Y Camau Nesaf

71. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 26 Mai 2021. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a bydd Ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn.